

Hafan
Pori
Awduron A-Z
Chwiliad testun rhydd

English

PDF Argraffu Cyfeirnod

Linell Amser English

Hafan Pori Awduron A-Z

Chwiliad testun rhydd

WILLIAMS, ALICE HELENA ALEXANDRA ('ALYS MEIRION') (1863-1957), llenor, artist a gwirfoddolwraig les

Enw: Alice Helena Alexandra Williams
Ffugenw: Alys Meirion
Dyddiad geni: 1863
Dyddiad marw: 1957
Partner: Fanny Mowbray Laming
Rhiant: David Williams
Rhiant: Annie Louisa Williams (née Williams)
Rhyw: Benyw
Galwedigaeth: llenor, artist a gwirfoddolwraig les
Maes gweithgaredd: Celf a Pensaerniaeth; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Dyngarwch
Awdur: Ceridwen Lloyd-Morgan

Ganwyd Alice Williams yng Nghastell Deudraeth, Penrhyndeudraeth, Meirionnydd, ar 12 Mawrth 1863, yr ieuengaf o saith merch a phum mab **David Williams** (1799-1869), tîrfeddiannwr, ac Annie Louisa Loveday (née Williams, bu farw 1904), o Beniarth Ucha, Meirionnydd.

Radicaliaid oedd y teulu, a thad Alice Williams oedd y Rhyddfrydwr cyntaf i'w ethol yn AS Meirionnydd; dilynodd ei brawd, Syr Arthur Osmond Williams, y barwnig cyntaf, ei dad fel AS Rhyddfrydol Meirionnydd yn 1900, a bu'n gefnogwr brwd i ymgyrch y bleidlais i ferched. Er gwaethaf daliadau gwleidyddol y teulu a'r pwyslais a roddid ar addysg, go gyfyng oedd yr addysg a dderbyniodd Alice, a hynny gartref. Fel y ferch ieuengaf disgwyliod iddi aros yn ddi-brïod a gofalu am ei mam pan symudodd hithau i Lundain yn fuan ar ôl colli ei gŵr. Yno y dechreuodd Alice Williams, oedd yn ferch fywiog a deallus, ddatblygu ei dawn fel actores amatwr ac fel awdur cerddi a dramâu ysgafn. Hogodd yn ogystal ei medrau arlunio, gan addurno ei llythyrau â darluniadau bywiog a thynnu brasluniau o achlysuron megis eisteddfodau a chyfarfodydd ymgyrchwyr dros y bleidlais i ferched. Roedd hi'n ddeugain mlwydd oed pan fu farw ei mam ac y cafodd gyfle o'r diwedd i fwynhau annibyniaeth. Yn 1905 fe ymunodd â'r Lyceum, clwb cymdeithasol newydd i ferched yn Llundain, gan fynd yn ei blaen i ddatblygu canghennau ym Merlín yr un flwyddyn, ac ym Mharis yn 1907. Ymgartrefodd ym Mharis yn bennaf tan y Rhyfel Byd Cyntaf ac yno y cyfarfu, tua 1909-10, Fanny Mowbray Laming, cerddor a siaradwraig gyhoeddus o deulu hanner Ffrengig, a ddaeth yn gymar oes iddi. Yno hefyd y datblygodd Alice Williams ei doniau artistig ymhellach, yn enwedig ym maes y tirlun dyfrlliw. Yn 1914 fe'i gwahoddwyd i ymuno â'r Union Internationale des Beaux-Arts et des Lettres; bu hefyd yn aelod o'r Union des Femmes Peintres et Sculpteurs de Paris, gan arddangos ei gwaith yn Llundain yn ogystal â Paris.

Teithiai'n aml ar y Cyfandir o hyd, ac yn München oedd hi pan gyhoeddodd Prydain ryfel yn erbyn yr Almaen yn Awst 1914. Ar ôl peth trafferth llwyddodd i gyrraedd y Swistir lle bu'n gweithio i'r Groes Goch ac yn gwerthu ei lluniau dyfrlliw i godi arian at achos ffoaduriaid o wlad Belg. Wedi dychwelyd i Baris, yn Ionawr 1915 fe sefydlodd hi Le Signal, biwrô a gynorthwyai'r rhai a geisiai newyddion am bobl ar goll, boed y rheiny'n garcharorion, wedi eu clwyfo neu eu lladd; agorodd gangen yn Llundain ddeufis yn ddiweddarach. Erbyn haf y flwyddyn honno dechreuodd hi godi arian i'r French Wounded Emergency Fund a dod yn Drefnydd-Ysgrifennydd Cymru, gyda'i phencadlys yng Nghae Canol, tŷ ger Castell Deudraeth, tan Ragfyr 1917. Roedd hi'r un mor gyfforddus gyda'r Cymry ag yr oedd hi yng nghwmni llysgenhadon, artistiaid a llenorion yn Llundain neu dramor, ac yn fodurwraig arloesol fe yrrai o gwmpas Cymru yn ei Ffordyn ffyddlon i godi arian. Ar ei theithiau byddai'n annerch cyfarfodydd a llwyfannu dwy ddrama newydd ganddi, *Liz* a *Britannia*. Cyfieithwyd yr olaf, a ddisgrifiwyd fel 'drama-basiant wlatgarol' ar gyfer merched o bob oed, i'r Gymraeg gan **Alice Gray Jones** ('Ceridwen Peris'). Dyfarwyd y Médaille de la Reconnaissance Française i Alice Williams am ei gwaith gyda'r Gronfa.

Parhaodd ei hymrwymiad i greu cyfleoedd ehangach i ferched ddatblygu'n gymdeithasol, addysgiadol a diwylliannol yn ganolog i'w bywyd. Yn 1917 sefydlodd hi gangen Deudraeth Sefydliad y Merched, y bedwaredd gangen yng Nghymru, gan gyflwyno adeilad ar ei chyfer ar dir ym Minffordd a roddwyd gan ei brawd Arthur. Ar ôl y seremoni agoriadol aeth hi yn ei blaen i Benbedw ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol, lle y derbyniwyd hi i'r Orsedd fel 'awdures dramâu' gyda'r enw 'Alys Meirion'. Roedd y gadair eisteddfodol a enillodd '**Brydfir**' (Humphrey Jones, 1867-1947), un o'i henwebwyr, yn 1899, eisoes wedi ei chyflwyno iddi gan SyM Deudraeth. Bu Alice Williams yn ddylanwadol yn natblygiad Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliad y Merched, gan wasanaethu fel yr Ysgrifennydd Mygedol cyntaf ac fel Trysorydd o 1917 ymlaen, a threfnai arddangosfeydd celf a chreffft sylweddol. Hi hefyd sefydlodd gylchgrawn y mudiad, *Home and Country*, yn 1919, a'i olygu tan Mehefin 1920. Yn 1919, gyda chymorth Fanny Laming, sefydlodd y Forum Club yn Grosvenor Place, Llundain, clwb preswyl a gynigiai i ferched ganolfan gymdeithasol gyda'r un adnoddau â chlwb dynion, gan gynnwys bar coctêls. Radical ond gwleidyddol annibynnol oedd yr ethos, yn broffesiynol ei naws ond â llawer o hwyl. Dros gyfnod o bymtheg mlynedd ar hugain bu'r Forum yn hafan i ferched, yn enwedig rhai segl a'r rhai â gwaith mewn meysydd proffesiynol, lle'r roedd cyfleoedd gwaith newydd agor iddynt. Ymhlith yr aelodau gellir enwi'r arlunydd Laura Knight, yr awyrenydd Amy Johnson a'r actores ac awdur Elizabeth Robbins, ymgyrchydd dros y bleidlais i ferched. Ymhlith aelodau'r adran Gymreig fywiog yr oedd un o ffrindiau Alice Williams, y nofelydd **Berta Ruck**, a ymunodd yn llawen yn hwyl y dramâu amatwr. Parhaodd Williams i baentio, gan gynnal arddangosfeydd bob blwyddyn yn y Forum a llefydd eraill, ac arhosodd yn driw iawn i SyM Deudraeth. Pan werthwyd Castell Deudraeth a'r ystad i'w nai, Clough Williams-Ellis, yn 1931, cadwodd ei theulu Borth-wen, tŷ yn edrych dros yr aber, ac yno y byddai'n aros wrth ymweld yn rheolaidd â'r ardal. Pan drowyd y castell yn westy bu'n gefnogol i'r fenter a dwyn perswâd ar gyfeillion cefnog o Lundain i ddod i aros yno. Yn ystod y cyfnod hwn bu'n arloesi mewn maes arall eto, fel y ferch gyntaf i gael ei hethol i bywllgorau ysbysai Sain Sior a'r Brein Edward yn Llundain, ac yn 1937 derbyniodd y CBE am wasanaeth cyhoeddus neilltuo.

Ni fu'r blynyddoedd nesaf yn garedig iddi. Yn 1939 bu farw Fanny Laming yn ogystal â'i brawd, **Dr Leonard Williams**, a fu'n agos ati ers eu plentyndod, ac yn 1944 cafodd adeilad y Forum Club lawer o ddfrod yn y blitz. Yn ddiweddarach a hithau'n tynnu am ei 90 oed bellach, trefnodd i'r Clwb fudo i gartref newydd, ond ni fu i'r Forum bara'n hir ar ôl iddi farw. Wrth i'w golwg ballu gorfu iddi roi'r gorau i baentio, ond ni phallodd ei hiwmor slei a'i hysbryd bywiog, a bu'n fodryb boblogaidd a hael. Bu farw Alice Williams yn ei chartref, 43 Cadogan Place, Chelsea, ar 15 Awst 1957, a chynhaliwyd ei gwasanaeth coffa yn Llundain ar 11 Hydref 1957.

Awdur

Dr Ceridwen Lloyd-Morgan

Ffynonellau

The Women's Library, Llundain: Alice H. A. Williams Papers; Archives of the National Federation of Women's Institutes

Archifau LIGC: **Clement Davies (Liberal MP) Papers: P/6/1**

Archifau LIGC: **A. Osmond Williams press cuttings: NLW MSS 14031-14034**

Archifau LIGC: **NLW MS 23437B**

Archifau LIGC: **NLW MS 23571B**

Archifau LIGC: **NLW MS 23573D**

Archifau LIGC: **NLW MS 23722B**

Archifau LIGC: **NLW MS 23723C**

pamffledyn coffa, 1957, yn Berta Ruck Papers 2, Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Tystiolaeth bersonol gan Syr Michael Osmond Williams

University Women's Club, Llundain: casgliad preifat o baentiadau dyfrlliw

Ceridwen Lloyd-Morgan, 'Alys Meirion (1863-1957) of Castell Deudraeth', *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirionydd* 15 (2009), 452-68

'Miss Alice Williams, CBE', yn *Home and Country*, 39 (Oct 1957), 297

Inez Jenkins, *The history of the Women's Institute movement* (1953)

J. W. R. Scott, *The story of the Women's Institute movement* (1925)

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Alice Williams](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q18572211](#)

Dyddiad cyhoeddi: 2015-12-03

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

[PDF](#) [Argraffu](#) [Cyfeirnod](#)

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfeyrdiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Lloyd-Morgan, C., (2015). WILLIAMS, ALICE HELENA ALEXANDRA ('ALYS MEIRION') (1863-1957), llenor, artist a gwirfoddolwraig les. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 13 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c10-WILL-ALE-1863>

[Cefnwrdd](#)

Preifatrwydd a Chwci
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATION



Yn ddiogel gan
Llywodraeth Cymru
Secured by
Welsh Government